OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 No. 322

# Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

## RHAN A

## CYFFREDINOL

**Darpariaethau trosiannol**

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yw—

(a) apêl neu hawliad a wnaed gan riant wedi ei chofnodi neu'i gofnodi yng Nghofrestr y Tribiwnlys cyn 6 Mawrth 2012, a phlentyn sydd â hawl i wneud apêl neu hawliad i'r Tribiwnlys yn rhinwedd rheoliadau a wnaed o dan adran 17(1) a (2) o Fesur Addysg (Cymru) 2009 yn gwneud apêl neu hawliad a gofnodir yng Nghofrestr y Tribiwnlys ar neu ar ôl 6 Mawrth 2012; a

(b) yr apêl neu'r hawliad a wnaed gan y plentyn yn gysylltiedig â'r mater a herir ac ar yr un seiliau ag a bennir yn apêl neu hawliad y rhiant.

(2) Os yw'r amgylchiadau ym mharagraff (1) yn bodoli—

(a) mae rheoliadau 37 a 38 yn gymwys; a

(b) caiff y Llywydd wneud pa bynnag gyfarwyddiadau a ystyria'r Llywydd yn gyfiawn mewn perthynas ag apêl neu hawliad y rhiant.